

**ALMANAC
MATHEMATEG
BLWYDDYN 9**

Enw:

ALMANAC

Mae almanac yn llyfryn sy'n cael ei gyhoeddi'n flynyddol i gynnwys gwybodaeth am bwnc neu weithgaredd penodol.

O'r Arabaidd **الْمَنَاح** (al-manāk, "almanac, calendr").



	Tudalen
Y Côt Cywiro	4
Y Pedwar Diben	6
Data	7
Y Waled Blastig	8
Y Llyfr Adolygu	9
Taith Ddysgu	10
Storifwrdd Blwyddyn 9	11
Rhestr Adolygu Arholiad Blwyddyn 9	12
Pecynnau Gwaith	13
Offer	28

Côd Cywiro Iaith

✓	Pwynt da a chywir	Defnydd o air Saesneg	
✓✓	Gwaith arbennig	Gair/geiriau ar goll	^
X	Pwynt anghywir	Angen dyfynodau	“ ”
	Camsillafu (+ anodi S)	Angen/dim angen I	I / i
Fy bag (+ anodi TR)	Camdreiglo	Angen prif lythyren	
// (+ anodi P)	Angen paragraff newydd	Gofal gyda'r gystrawen	
∅ (a/neu'r atalnod cywir)	Angen atalnodi	Angen acen	A (a/neu'r acen gywir)
?	Brawddeg ddim yn gwneud synnwyr		

Côd Cywiro Rhifedd


✓	Ateb cywir	Angen unedau yn yr ateb	(U)
✓✓	Gwaith arbennig	Angen dangos mwy o'r dull	(D)
✓↗	Dull cywir yn dilyn gwall	Angen defnyddio pren mesur	(P)
✓↗✗	Gwall arall	Angen defnyddio cwmpas	(C)
(3)	Rhif wedi ei gylchu: Camgymeriad	Camddarllen	(CD)
↘	Yr un camgymeriad yn cael ei ailadrodd islaw	Angen dangos y dull talgrynnu	(DT)
?	Gwaith ddim yn gwneud synnwyr	Angen symleiddio'r ateb	(S)

Graffiau a Siartiau

(T)	Angen teitl	Angen graddfa addas	(G)
(E)	Angen echelinau addas	Angen label ar yr echelin	(L)

Y Pedwar Diben

Yn y gwersi mathemateg, dyma sut y byddwch yn datbygu eich gallu i arddangos y pedwar diben.





Canlyniadau Blwyddyn 8

Canran Prawf Ffactorau a Lluosrifau	%
Canran Prawf Cyflwyno Algebra	%
Canran Prawf Mesur Siapiau 1	%
Canran Prawf Trin Data ac Ystadegaeth 2	%
Canran Arholiad Diwedd Blwyddyn 8	%
Prawf Cenedlaethol Gweithdrefnol	
Prawf Cenedlaethol Rhesymu	
Sgôr Safonedig Blwyddyn 8	

Adnoddau Blwyddyn 9

Pecynnau gwaith Cymraeg a Saesneg:
www.mathemateg.com, CiG, Blwyddyn 9.



Fideos adolygu ar YouTube:
www.youtube.com/user/adolygumathemateg



Adolygu Mathemateg
 @adolygumathemateg

Mae'r sianel yma ar gyfer dysgwyr sy'n astudio mathemateg yn yr ysgol. >

HOME VIDEOS PLAYLISTS COMMUNITY CHANNELS

Times Tables Rock Stars: www.ttrockstars.com

Enw defnyddiwr:

Cyfrinair:



Diagnostic Questions (cwisiau adolygu): www.diagnosticquestions.com

Enw defnyddiwr:

Cyfrinair:

Y Waled Blastig



Y Llyfr Coch

- Ar gychwyn bob gwers, ysgrifennwch “Gwaith Dosbarth”, y dyddiad a theitl addas ar gyfer y gwaith. Dylid tanlinellu bob un o’r rhain.
- Ni ddylid gadael tudalennau gwag yn y llyfr gwaith.
- Lluniwch ddiagramau efo pensil a, lle bo’n briodol, efo’r offer cywir, e.e. pren mesur, onglydd, cwmpas.
- Dangoswch eich gwaith cyfrifo yn llawn.
- Cofiwch gynnwys unedau perthnasol yn eich atebion, e.e. cm, £, ml.


Y Llyfr Adolygu

Hwn fydd sail eich gwaith adolygu ar gyfer eich arholiadau ym mlwyddyn 11.

- Llenwch o leiaf 4 tudalen yn eich llyfr adolygu ar gyfer bob pecyn gwaith.
- Defnyddiwch deitlau clir, syml ac effeithiol, e.e.


FFRACS IYNAU

- Gwnewch nodiadau ar beth sy'n bwysig ym mhob pennod o'r pecyn gwaith. Er enghraifft, dyma set of nodiadau ar rannu swm mewn cymhareb a roddir.



- Defnyddiwch y llyfr i geisio
 - y cwestiynau sydd ar ddiwedd y fideos adolygu ar sianel YouTube yr adran;
 - y cwestiynau sydd ar wefan Diagnostic Questions;
 - y cwestiynau sydd yn y pecyn gwaith;
 - neu gwestiynau rydych chi eich hunain yn ysgrifennu.
- Byddwch yn cael defnyddio eich llyfr adolygu mewn rhai profion; holwch eich athro mathemateg am fwy o fanylion.

Taith Ddysgu










Blwyddyn 9

Mathemateg a Rhifedd



Cwestiynau Hanfodol:

- Sut mae banc yn cyfrifo faint o log i ychwanegu i fenthyciad?
- Pam fod William Jones o Sir Fôn yn enwog iawn ym myd mathemateg?
- Sut gall algebra gynrychioli'n syml sefyllfaoedd cymhleth?

[1] Rhannau o Rif 7-8 wythnos	[2] Mesur Siapiau 2 5-6 wythnos	[3] Datblygu Algebra 6-7 wythnos	[4] Trin Data ac Ystadegaeth 3 6-7 wythnos	[5] Gweithio efo Arian 3 wythnos	[6] Graffiau Llinell Syth 3 wythnos	[7] Symud efo'r Sphero 6-7 wythnos
						
Pam dysgu hyn?	Pam dysgu hyn?	Pam dysgu hyn?	Pam dysgu hyn?	Pam dysgu hyn?	Pam dysgu hyn?	Pam dysgu hyn?
I deithio i lawr allt, lle fydddech yn rhoi cadwyn y beic uchod? Pam?	Beth fyddai orau: 1 pizza 10 modfedd, neu 2 pizza 7 modfedd?	Ar gyfer cae penodol, sut ydych yn cyfrifo gwerth y cnwd?	Beth yw'r ffordd fwyaf teg o benderfynu beth yw cyflog cyfartalog y wlad?	Sut mae biliau cyffredin fel rhai trydan neu rhai nwy'n cael eu cyfrifo?	Sut mae rhaglennu robot i chwarae pêl-droed?	Sut mae sugnwr llwch robotaid yn penderfynu ble i fynd nesaf?
Mae cymarebau'n cael eu defnyddio i gymharu dau werth, fel mewn gêr ar feic. Byddwn yn dysgu sut i weithio efo cymarebau a ffracsïynau yn yr uned hon.	Yn yr uned hon byddwn yn cyflwyno π , rhif a fydd yn ymddangos yn aml yn ystod weddill eich astudiaethau mathemategol.	Er mwyn cyfrifo allbwn y cnwd, yn aml raid lluosu trwy ehangu cromfachau – sef prif destun yr uned hon.	Yn yr uned hon byddwn yn cyflwyno cyfartaledd newydd, sef y canolrif, a'i gyfrifo o wahanol fathau o ddata.	Mae datblygu llythrennedd ariannol yn rhan bwysig o aeddfedu i fod yn unigolyn iach, hyderus. Ystyriwn ffyrdd gwahanol o weithio efo arian yn yr uned hon.	Un o ryfeddodau mathemateg yw'r gallu i ysgrifennu hafaliad syml i gynrychioli rhywbeth cymhleth fel llwybr pêl-droed ar faes chwarae.	Bydd cyfle yn yr uned hon i raglennu peiriant sphero, gan ddefnyddio cyfeiriant, cyflymder ag amser.
Profiadau dysgu	Profiadau dysgu	Profiadau dysgu	Profiadau dysgu	Profiadau dysgu	Profiadau dysgu	Profiadau dysgu
<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio modelau bar i weithio efo cymarebau a ffracsïynau. • Defnyddio ffracsïynau cywerth i gymharu maint ffracsïynau ac i'w hadio. • Deall ystyr cilydd rhif. 	<ul style="list-style-type: none"> • Defnyddio π i gyfrifo cylchedd ac arwynebedd cylch. • Defnyddio Theorem Pythagoras gyda thrionglau ongl sgwâr. • Llunio golygon o solidau ar bapur isomedrig. • Llunio wrth raddfa. 	<ul style="list-style-type: none"> • Darganfod nfed term dilyniant llinol. • Ehangu a symleiddio cromfachau (sengl neu ddwbl). • Datrys hafaliadau sy'n cynnwys cromfachau neu ffracsïynau. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mynegi tebygolrwydd fel ffracsïwn. • Cyfrifo'r canolrif, y dosbarth canolrifol a'r amrediad rhyngchwartel. • Llunio a dehongli diagramau amllder cronnus. • Ymchwiliad <i>StatsCymru</i>. 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio efo arian tramor. • Y dull adlog o fenthg y buddsoddi arian. • Biliau'r cartref. • Gweithio efo cyfraddau treth incwm. • Cynlluniau ariannu. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mesur a darganfod graddiant llinell syth. • Ysgrifennu llinell syth yn y ffurf $y = mx + c$. • Graddiant llinellau paralel a pherpendicwlar. • Adlewyrchu siapiau mewn llinellau syth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Graffiau pellter-amser a chyflymder-amser. • Darganfod a defnyddio cyfeiriant. • Plotio locysau gwahanol gan ddefnyddio pren mesur, onglydd a chwmpas.



Rhestr Adolygu Arholiad Mathemateg Blwyddyn 9

Papur 1: 45 munud (*heb gyfrifiannell*)

Papur 2: 45 munud (*efo cyfrifiannell*).

Offer: Byddwch angen *beiro, pensil, cyfrifiannell, onglydd, cwmpas a phren mesur.*



1. Rhannau o Rif

Modelau bar rhan-llawn a chymharu
Rhannu rhif mewn cymhareb a roddir
Problemau geiriol modelu bar
Cymarebau cywerth
Symleiddio cymarebau
Cymharu cymarebau
Y dull unedol
Cyfrifo ffracsiwn o rif

Cymharu maint ffracsiynau
Ffracsiynau pendrwm a rhifau cymysg
Cyfrifo efo ffracsiynau
Ffracsiynau cywerth
Symleiddio ffracsiynau
Cyfrifo'r cilydd
Ffracsiynau ar gyfrifiannell

2. Mesur Siapiau 2

Terminoleg cylchoedd
Cyfrifo cylchedd cylchoedd
Cyfrifo arwynebedd cylchoedd
Ffeindio'r radiws o'r arwynebedd
Theorem Pythagoras (2-D)
Profi os yw triongl yn un ongl sgwâr

Llunio solidau ar bapur isomedrig
Llunio golygon gwahanol o solidau
Ystyried pa solid sy'n cyfateb i set o olygon
Creu lluniad wrth raddfa
Dehongli lluniad wrth raddfa
Gwaith map

3. Datblygu Algebra

Nfed term dilyniannau llinol
Darganfod safle term
Ehangu mynegiadau algebraidd
Ehangu a symleiddio dau fynegiad llinol
Ehangu a symleiddio cromfach ddwbl

Cromfachau efo mwy na dau derm
Hafaliadau o'r ffurf $a(bx + c) = d$
Hafaliadau o'r ffurf $a(bx + c) = d(ex + f)$
Hafaliadau o'r ffurf $(x + a)(x + b) = 0$
Datrys hafaliadau yn cynnwys ffracsiynau

4. Trin Data ac Ystadegaeth 3

Tebygolrwydd digwyddiad fel ffracsiwn
Tebygolrwydd na fydd rhywbeth yn digwydd
Diagramau gofod sampl
Amllder disgwylidig
Cyfrifo canolrif set o ddata
Cyfrifo'r canolrif o dabl

Cymharu dau ddosraniad efo'r canolrif
Y dosbarth canolrifol / amcangyfrif o'r canolrif
Cyfrifo amrediad rhyngchwartel set o ddata
Llunio tabl amllder cronuss
Llunio diagram amllder cronuss
Amcangyfrif y canolrif a'r amrediad rhyngchwartel o ddiagram amllder cronuss

Pecynnau Gwaith

Mae'r pecynnau'n cynnwys amryw o ymarferion, wedi'u labelu fel yma.

Sgîl

Ymarferion ar dopig newydd.

Defnyddio

Datrys problem neu ateb cwestiwn mewn cyd-destun.

Ymestyn

Cwestiwn anoddach.

Adolygu

Adolygu testun o becyn blaenorol.

Gwerthuso

Mae bocsys gwerthuso ar ddiwedd bob pennod er mwyn adolygu'r gwaith a gyflawnwyd.

Geirfa Allweddol	Cywiriadau	Rwyf yn hapus efo...	Rwyf angen adolygu...
Ysgrifennwch y termau mathemategol newydd neu bwysig o'r bennod.	Beth sydd angen i chi gofio wrth wneud y math yma o waith yn y dyfodol?	Ysgrifennwch y topigau y cafoch lwyddiant efo.	Ysgrifennwch y topigau rydych angen edrych arnynt eto.

Hyfedreddau Cwricwlwm i Gymru



Dealltwriaeth gysniadol



Cyfathrebu gan ddefnyddio symbolau



Cymhwysedd strategol



Rhesymu rhesymegol



Rhuglder

Rhannau o Rif



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Defnyddio modelau bar.
- Rhannu gwerth mewn cymhareb a roddir.
- Defnyddio modelau bar.
- Penderfynu ar y fargen orau mewn siop gan gymharu cymarebau.
- Lliwio ffracsiwn o siâp.
- Cyfrifo ffracsiwn o rif.
- Defnyddio ffracsiynau cywerth i gymharu maint dau ffracsiwn.
- Adio, tynnu, lluosu a rhannu ffracsiynau.
- Deall ystyr cilydd rhif.



- Defnyddio geirfa cywir ffracsiynau.

Cymraeg	English
Model bar	Bar model
Cymhareb	Ratio
Rhan-llawn	Part-whole
Cywerth	Equivalent
Symleiddio	Simplify
Ffurf symlaf	Simplest form
Unedol	Unitary
Ffracsiwn	Fraction
Rhifiadur	Numerator
Enwadur	Denominator
Rhif Cymysg	Mixed Number
Ffracsiwn Pendrwm	Improper Fraction
Ffracsiwn Bondrwm	Proper Fraction
Cyfenwadur	Common denominator
Cilydd	Reciprocal



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

Canran yn y prawf:


	%
--	---



.....

.....

.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Mesur Siapiau 2



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Adnabod rhannau o gylch.
- Cyfrifo cylchedd ac arwynebedd cylch gan ddefnyddio'r rhif π .
- Defnyddio Theorem Pythagoras i ddarganfod hydoedd coll mewn trionglaug ongl sgwâr.
- Llunio siapiau ar bapur isomedrig.
- Llunio golygon o solidau.
- Creu a dehongli lluniad wrth raddfa, gan gynnwys ar fap.



- Ysgrifennu adroddiad am hanes William Jones.
- Ystyried dibynadwyedd darn darllen wrth gwblhau'r dasg π a'r Beibl.

Cymraeg	English
Radiws	Radius
Diamedr	Diameter
Cylchyn	Circumference
Cylchedd	Circumference
Arwynebedd	Area
Hypotenws	Hypotenuse
Prawf	Proof
Isomedrig	Isometric
Golygon	Elevations
Blaenolwg	Front elevation
Uwcholwg	Plan view
Graddfa	Scale
Dehongli	Interpret



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

Canran yn y prawf:


%



.....

.....

.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Datblygu Algebra 1



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Darganfod n fed term dilyniant llinol.
- Ehangu cromfach sengl.
- **Ehangu cromfach dwbl.**
- Datrys hafaliadau efo cromfachau.
- Datrys hafaliadau efo ffracsiynau.
- **Datrys hafaliadau gyda chromfach ddwbl.**
- **Datrys hafaliadau'n cynnwys mwy nag un ffracsiwn.**



- Datblygu geirfa fathemategol.



- Defnyddio'r wefan "Grid Algebra" i weithio efo mynegiadau algebraidd.

Cymraeg	English
Nfed term	Nth term
Dilyniant	Sequence
Mewnbwn	Input
Allbwn	Output
Llinol	Linear
Ehangu	Expand
Cromfach	Bracket
Mynegiad	Expression
Dosbarthu	Distribute
Symleiddio	Simplify
Newidyn	Variable
Datrys	Solve
Hafaliad	Equation
Ffracsiwn	Fraction
Enwadur	Denominator
Cyfenwadur	Common denominator



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

%



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Trin Data ac Ystadegaeth 3



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Ysgrifennu tebygolrwydd fel ffracsiwn.
- Y tebygolrwydd na fydd rhywbeth yn digwydd.
- Diagramau gofod sampl.
- Cyfrifo'r canolrif.
- Darganfod y dosbarth canolrifol.
- **Cyfrifo'r amrediad rhyngchwartel.**
- **Llunio diagramau amlder cronus.**
- **Amcangyfrif y canolrif a'r amrediad rhyngchwartel o ddiagram amlder cronus.**



- Dehongli data.
- Ysgrifennu adroddiad y prosiect *StatsCymru*.

Cymraeg	English
Tebygolrwydd	Probability
Digwyddiad	Event
Diagram Gofod Sampl	Sample Space Diagram
Amllder Disgwyliedig	Expected Frequency
Canolrif	Median
Dosraniad	Distribution
Dosbarth Canolrifol	Median Class
Amrediad Rhyngchwartel	Interquartile Range
Allanolyn	Outlier
Chwartel	Quartile
Diagram Amllder Cronus	Cumulative Frequency Diagram
Cyfwng Dosbarth	Class Interval
Amcangyfrif	Estimate
Dehongli	Interpret
Ymchwiliad	Investigation



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....


.....

.....

.....

Canran yn y prawf:


	%
--	---



.....

.....

.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Gweithio efo Arian



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Arian tramor: cyfraddau cyfnewid; cyfnewid arian.
- Y dull adlog o fenthug arian.
- Biliau'r cartref: trydan; nwy; dŵr; ffôn symudol; a mwy...
- Cyfraddau treth incwm.
- Slipiau cyflog.
- Morgeisi.
- Cyfriflenni banc.
- Cynlluniau ariannu.



- Darllen a dehongli gwybodaeth dechnegol.



- Defnyddio gwefannau i ymchwilio i fenthyciadau a morgesei.

Cymraeg	English
Cyfradd	Rate
Cyfnewid	Exchange
Adlog	Compound interest
Benthug	Borrow
Buddsoddi	Invest
Gwerth ardrethol	Rateable value
Darlleniad	Reading
Tâl sefydlog	Fixed charge
Cynilo	Save
Cyflog	Wage / Salary
Treth incwm	Income tax
Yswiriant gwladol	National insurance
Treth y cyngor	Council tax
Morgais	Mortgage
Cyfriflen	Statement



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Graffiau Llinell Syth



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Mesur a darganfod graddiant llinellau syth.
- Llinellau fertigol a llorweddol.
- Hafaliad llinell syth cyffredinol, $y = mx + c$.
- **Datrys hafaliadau cydamserol yng ngraffigol.**
- **Graddiant llinellau paralel a pherpendicwlar.**
- Adlewyrchu siapiau mewn llinellau syth.



- Defnyddio gwefan *Desmos* i ymchwilio i hafaliad llinell syth.

Cymraeg	English
Graddiant	Gradient
Fertigol	Vertical
Llorweddol	Horizontal
Cyfesurynnau	Coordinates
Echelinau	Axes
Anfeidrol	Infinite
Rhyngdoriad	Intercept
Hafaliadau cydamserol	Simultaneous equations
Paralel	Parallel
Perpendicwlar	Perpendicular
Adlewyrchu	Reflect
Delwedd	Image
Llinell doredig	Dotted line
Trawsffurfio	Transform



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

Symud efo'r Sphero



Y Gwaith

Geirfa Pynciol



- Cyfrifo pellter, amser a chyflymder.
- Graffiau pellter-amser a chyflymder-amser.
- Darganfod a defnyddio cyfeiriannau.
- Locws: pellter o bwynt; pellter o linell; hanerydd perpendicwlar; hanerydd ongl.



- Ysgrifennu adroddiad am daith band o amgylch Ewrop.



- Rhaglennu'r peiriannau sphero, gan ddefnyddio iteriadau i wneud algorithmau'n fwy effeithiol.

Cymraeg	English
Rhaglennu	Program
Meddalwedd	Software
Cyfarwyddiadau	Instructions
Pellter	Distance
Amser	Time
Cyflymder	Speed
Mudiant unionlin	Rectilinear motion
Graddiant	Gradient
Arwynebedd	Area
Cyfeiriant	Bearing
Cwmpawd	Compass
Gogledd	North
Locws	Locus
Cytbell	Equidistant
Hanerydd	Bisector



Rwyf wedi...

- Cwblhau o leiaf 4 tudalen yn y llyfr adolygu glas.
- Cwblhau'r cwis ar wefan Diagnostic Questions (<https://diagnosticquestions.com/>).
- Llenwi'r daflen fyfrio ar ddiwedd y pecyn gwaith.
- Adolygu'r gwaith trwy ddarllen trwy'r llyfr coch a'r pecyn gwaith.
- Gwyllo'r fideos perthnasol ar YouTube.



.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Canran yn y prawf:

	%
--	---



.....

.....

.....



.....

.....

.....



.....

.....

.....

.....

OFFER

ar gyfer gwersi Mathemateg (pris yn siop yr adran)

1. Beiro (10c)

- Du, Coch a Glas
- Dim defnyddio hylif cywiro



2. Pensil HB (10c)

- Ar gyfer llunio diagramau




3. Pren mesur (10c / 15c)


- Gwell cael un 30cm
- Mesur mewn cm a modfeddi



4. Chwalwr (10c)



5. Onglydd (20c)



6. Cwmpas (30c)

- Cofiwch dynhau'r sgrif!



7. Cyfrifiannell Wyddonol (£10)

- Casio fx-83GT CW



8. Sgwaryn

9. Miniwr (10c / 20c)

10. Amlygwr (Highlighter)

